Taflen nodiadau

Benthyciadau Trefnu
o'r Gronfa Gymdeithasol

canolfanbydgwaith

Darllenwch y nodiadau hyn yn ofalus. Maent yn esbonio'r amgylchiadau pan ellir talu benthyciad. Mae amgylchiadau gwahanol yn berthnasol i daliadau Grantiau Gofal Cymunedol a Benthyciadau Argyfwng. Os credwch y gallech fod yn gymwys i gael y naill neu'r llall o'r mathau hyn o daliadau, darllenwch yr adran ar ochr arall y dudalen hon.

Bydd yn rhaid i chi lenwi'r ffurflen gais gywir ar gyfer y math o daliad sydd ei angen arnoch. Y rhain yw:

- ffurflen **SF300W** ar gyfer Grant Gofal Cymunedol
- ffurflen **SF500W** ar gyfer Benthyciad Trefnu
- ffurflen **SF401W** ar gyfer Benthyciad Argyfwng
- ffurflen **SF100W** (Cychwyn Cadarn) ar gyfer Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn
- ffurflen **SF200W** ar gyfer Taliad Angladd

Mae'n rhaid i chi lenwi ffurflen ar wahân ar gyfer pob un.

Benthyciadau Trefnu

- **Gallech gael Benthyciad Trefnu os:**
  rydych wedi bod yn derbyn Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, Credyd Pensiwn neu daliad ar gyfrif am unrhyw un o'r budd-daliadau neu hawliadau hyn am o leiaf 26 wythnos,

a

- **Bod angen help arnoch**
  - i brynu dodrefn neu offer i'r cartref
  - i brynu dillad ac esgidiau
  - i dalu rhent ymlaen llaw a/neu dreuliau symud i sicrhau llety newydd
  - i dalu am welliannau i'r cartref, gwaith cynnal a chadw neu ddiogelwch
  - gyda threuliau teithio o fewn y DU
  - i dalu am bethau i'ch helpu i chwilio am waith neu i ddechrau gweithio
  - i ad-dalu Hur Bwrcas neu ddyledion eraill a drefnwyd.

Ni allwn helpu gydag unrhyw fathau eraill o eitemau neu wasanaethau

SF500W 04/09

Mae'n rhaid ad-dalu Benthyciadau Trefnu ond maent yn ddi-log.

Gallwch gael un o dair cyfradd o Fenthyciad Trefnu. Mae'r cyfanswm yn dibynnu ar p'un a ydych yn sengl, cwpl heb blant neu bobl ifanc sy'n gymwys neu deulu un neu ddau rhiant gyda phlant neu bobl ifanc sy'n gymwys.

Mae cyfanswm y Benthyciad Trefnu y gallwch ei gael yn dibynnu hefyd ar p'un a oes gennych unrhyw fenthyciadau eraill gan y Gronfa Gymdeithasol. Ni all swm unrhyw Fenthyciad Trefnu y gallwn ei dalu ynghyd â'r swm sy'n ddyledus i'r Gronfa Gymdeithasol fod yn fwy na £1,500.

Cynilion

- Os ydych chi a'ch partner o dan 60 oed, gallai cynilion o fwy na £1,000 effeithio ar y swm o arian y gallwch ei gael.
- Os ydych chi neu'ch partner yn 60 oed neu'n hŷn, gallai cynilion o fwy na £2,000 effeithio ar y swm o arian y gallwch ei gael.

Ni allwn wneud taliad am fenthyciad os oes £1,500 neu fwy eisoes yn ddyledus gennych i'r Gronfa Gymdeithasol.

Ni allwn dalu Benthyciad Trefnu am dreuliau o lai na £100.

Sut rydym yn penderfynu beth y gallwn ei dalu i chi

Bydd swyddog penderfyniadau yn edrych ar yr amgylchiadau perthnasol ac yn penderfynu ar uchafswm y Benthyciad Trefnu y gallwch ei gael, os nad oes gennych ddyled eisoes gyda'r Gronfa Gymdeithasol. Bydd p'un a allwch gael benthyciad ai peidio hyd at y swm hwnnw yn dibynnu ar p'un a oes gennych ddyled benthyciad trefnu eisoes.

- Mae *partner* yn golygu
  - person rydych yn briod â hwy neu berson rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn briod â hwy, neu
  - bartner sifil neu berson rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn bartneriaid sifil.
- Mae *plentyn* yn golygu person o dan 16 oed rydych yn cael Budd-dal Plant ar ei gyfer.
- Mae *person ifanc sy'n gymwys* yn golygu person 16, 17, 18 neu 19 oed rydych yn cael Budd-dal Plant ar ei gyfer.

Sut i ad-dalu'r benthyciad

- Byddwn yn edrych ar faint allwch chi ei fforddio cyn penderfynu ar y trefniadau ar gyfer ad-dalu.
- Os gallwn dalu Benthyciad Trefnu i chi, gallem gynnig tri pheth i chi. Chi fydd i benderfynu pa un o'r cynigion hyn y gallwch fforddio eu had-dalu. Hwyrach na allwn gynnig y gyfradd ad-dalu isaf os credwch yn ddiweddarach na allwch fforddio'r gyfradd y cytunwyd arni'n wreiddiol.
- Os gallwn dalu Benthyciad Trefnu i chi, byddwn yn gofyn i chi gytuno ei ad-dalu ac hefyd y ffordd byddwch yn ei ad-dalu cyn y gallwn wneud y taliad.
- Byddwn yn cymryd yr arian yn ôl mewn ad-daliadau wythnosol o'ch budd-dal. Os nad ydych chi neu'ch partner yn cael unrhyw fudd-dal, byddwn yn trefnu i'r benthyciad gael ei ad-dalu mewn ffordd arall.
- Os ydych yn cael anhawsterau nes ymlaen yn gwneud yr ad-daliadau fel y cytunwyd yn wreiddiol, fe allwn eich helpu, er enghraifft gostwng eich taliadau wrth ymestyn cyfnod yr ad-daliad. Fe all eich swyddfa Canolfan Byd Gwaith roi cyngor i chi.

Grantiau Gofal Cymunedol

Gallech gael Grant Gofal Cymunedol

- os ydych eisoes yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm neu Gredyd Pensiwn.

neu

- os ydych yn debygol o gael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, Credyd Pensiwn neu daliad ar gyfrif am unrhyw un o'r budd-daliadau neu hawliadau hyn, yn y chwe wythnos nesaf oherwydd eich bod yn gadael gofal sefydliadol neu ofal preswyl.

a

- rydych yn symud allan o ofal sefydliadol neu ofal preswyl, neu
- mae angen help arnoch i aros yn eich cartref eich hun, neu
- mae gan eich teulu broblemau anodd iawn, neu
- rydych yn symud am fod gennych ffordd o fyw ansefydlog ac mae sefydliad fel cyngor neu elusen yn eich adsefydlu, neu
- mae angen help arnoch i deithio oherwydd rhesymau arbennig, neu mae angen help arnoch oherwydd bydd carcharor neu droseddwr ifanc yn byw gyda chi ar ôl cael eu rhyddhau ar drwydded dros dro.

Canllaw cyffredinol yn unig sydd yn y nodiadau hyn ac ni ddylid eu trin fel datganiad cyflawn ac awdurdodol o'r gyfraith.

Nid oes rhaid ad-dalu grantiau Gofal Cymunedol.

Cynilion

- Os ydych chi a'ch partner o dan 60 oed, gallai cynilion o fwy na £500 effeithio ar y swm o arian y gallwch ei gael.
- Os ydych chi neu'ch partner yn 60 oed neu'n hŷn, gallai cynilion o fwy na £1,000 effeithio ar y swm o arian y gallwch ei gael.

Benthyciadau Argyfwng

Gallech gael Benthyciad Argyfwng:

- os ydych yn 16 oed neu'n hŷn

ac

- mewn argyfwng neu oherwydd trychineb, nid oes gennych ddigon o arian i gwrdd â'ch anghenion chi a'ch teulu, os oes gennych un

ac

- nad oes unrhyw ffordd arall o atal niwed neu risg ddifrifol i'ch iechyd neu eich diogelwch chi neu aelod o'ch teulu.

Efallai y byddwch hefyd yn gallu cael Benthyciad Argyfwng os ydych angen help gyda talu rent ymlaen llaw

- unai mewn argyfwng neu o ganlyniad i drychineb, neu
- i landlord nad yw'n awdurdod lleol oherwydd eich bod yn symud allan o gartref gofal neu ofal sefydliadol ac mae Grant Gofal Cymunedol yn cael ei dalu i'ch sefydlu yn y gymdeithas.

Mae'n rhaid ad-dalu Benthyciadau Argyfwng ond maent yn ddi-log.

Help a chyngor

Os hoffech gael mwy o wybodaeth

- Cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith. Cewch hyd i'r rhif ffôn a'r cyfeiriad ar yr hysbyseb yn yr adran rhifau busnes o'r llyfr ffôn. Edrychwch o dan **Jobcentre Plus**. Hefyd gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth o'n gwefan. Y cyfeiriad yw **www.dwp.gov.uk**

neu

- Cysylltwch â chanolfan gynghori fel Cyngor Ar Bopeth.

06-May-07

Rhan 1 Amdanoch chi a'ch partner

- **Cyn i chi gwblhau'r ffurflen hon, darllenwch y daflen nodiadau sy'n dweud wrthych am bob math o help y gallwch ei gael o'r Gronfa Gymdeithasol.**
- **Defnyddiwch y ffurflen hon i wneud cais am Fenthyciad Trefnu. Cwblhewch y ffurflen hon mewn inc, llofnodwch a dyddiwch unrhyw addasiadau a wnewch.**
- Os ydych yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm neu Gredyd Pensiwn, y person sy'n gwneud cais am y budd-dal neu'r hawliad hwnnw ac sy'n ei gael ddylai lenwi'r ffurflen hon.
- Dywedwch wrthym amdanoch chi eich hun a'ch partner, os oes gennych un.
  Mae *partner* yn golygu
  – person rydych yn briod â hwy neu berson rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn briod â hwy, neu
  – bartner sifil neu berson rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn batneriaid sifil.
- Llenwch y ffurflen yn llawn trwy ateb pob cwestiwn a chais am wybodaeth. **Efallai y bydd oedi wrth ddelio â'ch cais os na chawn yr holl wybodaeth y mae arnom ei hangen.**

	Chi	**Eich partner**
Rhif Yswiriant Gwladol (YG)	Llythrennau Rhifau Llythren	Llythrennau Rhifau Llythren
	Mae'r rhif ar eich cerdyn rhif Yswiriant Gwladol (YG), llythyrau ynglŷn â'ch budd-dal neu slipiau cyflog	Mae'r rhif ar eich cerdyn rhif Yswiriant Gwladol (YG), llythyrau ynglŷn â'ch budd-dal neu slipiau cyflog
Cyfenw neu enw teuluol	Mr / Mrs / Miss / Ms	Mr / Mrs / Miss / Ms
Cyfenwau eraill rydych wedi cael eich adnabod wrthynt		
Pob enw arall yn llawn		
Dyddiad geni	/ /	/ /
Y cyfeiriad lle rydych yn byw nawr Dywedwch wrthym beth yw cyfeiriad eich partner, os yn wahanol	Cod Post	Cod Post
Rhif ffôn yn ystod y dydd	Cod Rhif	Cod Rhif
Beth yw'r rhif hwn? Ticiwch	Cartref gwaith symudol ffacs	Cartref gwaith symudol ffacs
Ydych chi neu'ch partner yn cymryd rhan mewn anghydfod masnachol?	**Na** **Ydw**	**Na** **Ydy**

Mae *anghydfod masnachol* yn golygu unrhyw streic, cerdded allan, cloi allan neu anghydfod arall ynglŷn â gwaith.

Benthyciadau Trefn o'r Gronfa Gymdeithasol

At ddefnydd swyddfa yn unig

Dyddiad mewnbwn SFCS
/ /

Rhif y cais

Blaenlythrennau

Dyddiad gwnaethpwyd y penderfyniad
/ /

Llofnod

Rhan 2 Ynglŷn â'ch plant

Dywedwch wrthym am unrhyw blant neu bobl ifanc sy'n gymwys rydych yn cael budd-dal neu gyda hawl i fudd-dal drostynt.

- Mae *plentyn* yn golygu person o dan 16 oed rydych yn cael Budd-dal Plant ar ei gyfer.
- Mae *person ifanc sy'n gymwys* yn golygu person 16, 17, 18 neu 19 oed rydych yn cael Budd-dal Plant ar ei gyfer.

Enw	Dyddiad geni	Enw	Dyddiad geni
	/ /		/ /
	/ /		/ /
	/ /		/ /

- Os oes gennych fwy na 6 o blant neu bobl ifanc sy'n gymwys, dywedwch wrthym amdanynt yn **Rhan 8 Mwy o wybodaeth**.

Ydych chi'n cael Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm ar gyfer eich plant neu bobl ifanc sy'n gymwys?

Na ☐
Ydw ☐ Faint ydych yn ei dderbyn pob wythnos? £

Ydych chi'n cael Credyd Treth Plant ar gyfer eich plant neu bobl ifanc sy'n gymwys?

Na ☐
Ydw ☐ Faint ydych yn ei dderbyn pob wythnos? £

Ydych chi'n cael Budd-dal Plant ar gyfer eich plant neu bobl ifanc sy'n gymwys?

Na ☐
Ydw ☐ Faint ydych yn ei dderbyn pob wythnos? £

Rhan 3 Ynglŷn â'r hyn sydd ei angen arnoch

Dim ond ar gyfer y mathau o eitemau neu wasanaethau a restrir yn y rhan hon y gellir rhoi benthyciadau trefnu.

Nodwch gyfanswm yr arian y mae arnoch ei angen yn y blwch **Cyfanswm y ceisir amdano** ar gyfer eich anghenion. Ticiwch hefyd y blychau categori eraill sy'n berthnasol i chi.

Nid oes arnom angen unrhyw wybodaeth bellach ar gyfer y rhan hyn.

Cyfanswm y ceisir amdano £

Dodrefn ac offer i'r cartref ☐

Rhent ymlaen llaw a/neu dreuliau symud i lety newydd ☐

Treuliau teithio o fewn y DU ☐

Dillad ac esgidiau ☐

Gwelliannau, gwaith cynnal a chadw a diogelwch i'r cartref ☐

Treuliau sy'n gysylltiedig â chwilio am waith neu ailddechrau gweithio ☐

Ad-dalu Hur Bwrcas a dyledion eraill – am unrhyw eitemau neu dreuliau sy'n gysylltiedig â'r categorïau uchod ☐

Rhan 4 Ynglŷn a budd-daliadau a hawliadau

Ydych chi neu'ch partner yn derbyn Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, Credyd Pensiwn neu daliad ar gyfrif am un o'r budd-daliadau neu hawliadau hyn?

Na ☐ Ewch i **Ran 8**.

Ydym ☐ Dywedwch wrthym y dyddiad rydych wedi bod yn cael un o'r budd-daliadau neu hawliadau hyn yn ystod y 26 wythnos diwethaf

O / / I / /

O / / I / /

A yw partner neu cyn-bartner wedi derbyn Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, Credyd Pensiwn neu daliad ar gyfrif am un o'r budd-daliadau neu hawliadau hyn ar eich cyfer yn ystod y 26 wythnos diwethaf?

Na ☐

Ydy ☐ Dywedwch wrthym am y person hyn.

Eu henw

Eu dyddiad geni / /

Eu rhif Yswiriant Gwladol (YG)

Dyddiad gwahanu / /

Eu cyfeiriad

Cod Post

Ydych chi wedi gwneud y cais hwn am eich bod wedi gwahanu oddi wrth rywun?

Na ☐

Ydw ☐ Dywedwch wrthym am y person rydych wedi gwahanu oddi wrthynt.

Eu henw

Eu dyddiad geni / /

Rhan 5 Ynglŷn ag arian mae'n rhaid i chi ei dalu

Dywedwch wrthym am unrhyw arian y mae'n rhaid i chi neu'ch partner ei dalu'n rheolaidd, ond peidiwch â chynnwys costau byw arferol fel taliadau nwy a thrydan neu filiau bwyd.
Dylech gynnwys pethau fel arian catalog, hur bwrcas, taliadau benthyciad a dirwyon.

- Os oes angen mwy o le arnoch, defnyddiwch y blwch yn **Rhan 8**.

I bwy rydych chi'n talu'r arian?	Faint rydych chi'n ei dalu a pha mor aml?	Faint sy'n ddyledus?
	£ bob	£
	£ bob	£
	£ bob	£

Rhan 6 Ynglŷn a chynilion

Oes gennych chi neu'ch partner unrhyw gynilion?
Os ydych chi neu'ch partner o dan 60 oed, gallai cynilion o fwy na £1,000 effeithio ar y swm o arian y gallwch ei gael.
Os ydych chi neu'ch partner yn 60 oed neu'n hŷn, gallai cynilion o fwy na £2,000 effeithio ar y swm o arian y gallwch ei gael.
Mae cynilion yn golygu unrhyw gyfalaf sydd gennych chi a'ch partner, yn cynnwys

- unrhyw arian sydd gennych gartref, yn y banc, gymdeithas adeiladu neu mewn cyfrif undeb credyd
- bondiau premiwm
- buddsoddiadau, fel cyfranddaliadau neu ymddiriedolaethau uned
- gwerth unrhyw eiddo rydych chi neu'ch partner yn berchen arno nad ydych yn byw ynddo. Er enghraifft, tyŵ rydych yn ei osod allan, tyŵ gwyliau neu rhywle mae aelod arall o'ch teulu yn byw ynddo.

Na ☐
Oes ☐ Faint sydd gennych?

£

Rhan 7 Sut rydym yn eich talu

Fel arfer byddwn yn talu eich arian i mewn i gyfrif
Bydd nifer o fanciau a chymdeithasau adeiladu yn eich caniatáu i gasglu eich arian mewn swyddfeydd post. Byddwn yn dweud wrthych pryd y caiff eich taliad o'r Gronfa Gymdeithasol ei wneud a faint ydyw.

Cael gwybod faint rydym wedi'i dalu i mewn i'r cyfrif
Gallwch wirio eich taliadau ar gyfriflenni cyfrif. Efallai bydd y cyfriflenni yn dangos eich rhif Yswiriant Gwladol (YG) wrth ymyl unrhyw daliadau rydym wedi eu gwneud. Os credwch fod taliad yn anghywir, cysylltwch â'r swyddfa sy'n eich talu ar unwaith.

Os byddwn yn talu gormod o arian i chi
Mae gennym yr hawl i adennill unrhyw arian a dalwyd nad oes gennych hawl i'w gael. Gallai hyn fod oherwydd y ffordd y mae'r system ar gyfer taliadau yn gweithredu. Er enghraifft, efallai y byddwch yn rhoi gwybodaeth i ni, sy'n golygu bod hawl gennych i gael llai o arian. Weithiau ni allwn newid y swm rydym wedi'i dalu i chi eisoes. Golyga hyn y byddwn wedi talu arian i chi nad oes gennych hawl i'w gael.

Byddwn yn cysylltu â chi cyn y byddwn yn adennill unrhyw arian.

Beth i'w wneud nawr

- Dywedwch wrthym am y cyfrif yr ydych yn dymuno ei ddefnyddio ar y dudalen nesaf. Drwy roi manylion eich cyfrif i ni rydych
  – yn cytuno y byddwn yn talu i mewn i'ch cyfrif, ac
  – yn deall yr hyn rydym wedi ei ddweud wrthych uchod yn yr adran **Os byddwn yn talu gormod o arian i chi**.
- Os ydych yn bwriadu agor cyfrif, rhowch fanylion eich cyfrif i ni cyn gynted â'u bod gennych.
- Os nad oes gennych gyfrif, ac nid ydych yn bwriadu agor un, ticiwch y blwch, a byddwn yn cysylltu â chi.

Cwblhewch gweddill y ffurflen hon. Nid oes rhaid i chi aros nes eich bod wedi agor cyfrif neu gysylltu â ni.

Rhan 7 **Sut rydym yn eich talu** parhad

Ynglŷn â'r cyfrif rydych am ei ddefnyddio

Rhowch fanylion eich cyfrif isod. Mae'n bwysig eich bod yn llenwi POB blwch yn gywir gan gynnwys rhif rôl neu gyfeirnod y gymdeithas adeiladu os oes gennych un. Os byddwch yn rhoi'r manylion cyfrif anghywir i ni gallai eich taliad gael ei oedi neu gallwch golli arian. Gallwch ddod o hyd i fanylion y cyfrif ar eich llyfr siec neu'ch cyfriflenni banc. Os nad ydych yn siwr am y manylion, gofynnwch i'r banc, cymdeithas adeiladu neu ddarparwr cyfrif arall.

Ynglŷn â'r cyfrif rydych am ei ddefnyddio
Gallwch ddefnyddio

- cyfrif yn eich enw chi
- cyfrif ar y cyd, neu
- cyfrif rhywun arall,
  - yn dibynnu ar dermau ac amodau'r cyfrif, a
  - cyn belled y bod gennych ganiatâd y person arall ac yn eu hawdurdodi hwy i ddefnyddio'r arian yn y ffordd rydych yn ei ddweud wrthynt.
- Os ydych yn Benodai neu gynrychiolydd cyfreithiol yn gweithredu ar ran y cwsmer, dylai'r cyfrif fod yn eich enw chi yn unig.
- I gael eich talu i mewn i gyfrif undeb credyd mae'n rhaid i chi ddarparu manylion cyfrif yr undeb credyd. Gall eich undeb credyd eich helpu gyda hyn.

Enw deiliad y cyfrif
Ysgrifennwch enw deiliad y cyfrif yn union fel y mae i'w weld ar y llyfr siec neu gyfriflen.

Enw llawn y banc, cymdeithas adeiladu neu ddarparwr cyfrif arall

Cod didoli
Rhowch bob un o'r chwe rhif, er enghraifft: 12-34-56.

Rhif y cyfrif
Mae'r mwyafrif o rifau cyfrif yn 8 rhif o hyd. Os oes gan eich cyfrif lai na 10 rhif, llenwch y rhifau i mewn o'r chwith.

Os ydych yn defnyddio cyfrif cymdeithas adeiladu efallai y bydd yn rhaid i chi ddweud wrthym y rhif rôl neu gyfeirnod. Gall gynnwys llythrennau a rhifau a gall fod hyd at 18 llythyren neu rif o hyd. Os ydych yn ansicr p'un a oes gan y cyfrif rif rôl neu gyfeirnod, gofynnwch i'r gymdeithas adeiladu.

Rhif rôl neu gyfeirnod cymdeithas adeiladu

Efallai eich bod yn cael budd-daliadau a hawliadau eraill na chânt eu talu'n syth i mewn i gyfrif. Ticiwch y blwch er mwyn iddynt gael eu talu i mewn i'r cyfrif uchod.

Rhan 8 Gwybodaeth arall

Manylion swyddfa'r post

Darparwch fanylion eich swyddfa'r post leol.

Cod Post

Defnyddiwch y gofod yma i nodi unrhyw beth arall y teimlwch y gallai fod angen i ni wybod. Os nad oes digon o le, defnyddiwch ddalen o bapur ar wahân.
Cofiwch roi eich enw llawn a'ch rhif Yswiriant Gwladol (YG) ar unrhyw ddalennau ar wahân o bapur a ddefnyddiwch.
Os oes gennych unrhyw ddogfennau eraill rydych yn credu a fydd o gymorth i ni benderfynu ar eich cais, yna anfonwch gopi o'r dogfennau hyn i ni.

Rhan 9 I bobl sy'n llenwi'r ffurflen hon a'i llofnodi ar ran rhywun arall

Ydych chi wedi llenwi'r ffurflen hon ar ran rhywun arall?

Na ☐ Ewch i **Ran 10**.

Ydw ☐ Dywedwch wrthym amdanoch eich hun.

Dywedwch wrthym pam rydych yn llenwi ac yn llofnodi'r ffurflen hon ar ran rhywun arall.

Rwy'n anfon llythyr y mae'r cwsmer wedi'i lofnodi gyda'r ffurflen hon. Mae'r llythyr yn dweud wrthych eu bod yn cytuno i mi wneud y cais ar eu rhan. ☐ Nawr llofnodwch y ffurflen hon yn **Rhan 10**.

Fi yw eu penodai ☐

Mae gennyf bŵer atwrnai ☐

Enw llawn

Mr / Mrs / Miss / Ms

Dyddiad geni

/ /

Cyfeiriad

Cod Post

Rhif ffôn

Cod Rhif

Beth yw'r rhif hwn?
Ticiwch.

Cartref ☐ gwaith ☐ symudol ☐ ffacs ☐

Nawr llofnodwch y ffurflen hon yn **Rhan 10**.

Rhan 10 Datganiad

Rwy'n datgan bod y wybodaeth a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.

Rwyf yn deall y gellir dwyn achos neu gamau eraill yn fy erbyn os byddaf yn rhoi gwybodaeth sy'n anghywir neu'n anghyflawn yn fwriadol.

Rwyf yn deall bod yn rhaid i mi hysbysu'r swyddfa sy'n talu fy mudd-dal ar unwaith am unrhyw beth a allai effeithio ar fy hawl i neu'r swm o unrhyw ddyfarniad.

Dyma fy nghais am Fenthyciad Trefnu.

Y person a wnaeth y cais am Gymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm neu Gredyd Pensiwn ac sy'n cael y budd-dal neu'r hawliad hwnnw ddylai lenwi'r ffurflen hon a'i dyddio.

Llofnod

Dyddiad / /

Llofnod y penodai

Dyddiad / /

Rwyf wedi darllen y manylion a roddwyd ar y ffurflen hon i'r cwsmer yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwyd ganddynt.

Mae'r cwsmer wedi cytuno eu bod yn gywir.

Llofnod y swyddog cyfweld

Dyddiad / /

Llofnod y cwsmer

Dyddiad / /

Rhan 11 Beth i'w wneud nawr

- Edrychwch drwy'r ffurflen hon a gwnewch yn siwr eich bod wedi ateb pob cwestiwn ac wedi rhoi'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani. **Efallai y bydd oedi wrth ddelio â'ch cais os na chawn yr holl wybodaeth y mae arnom ei hangen.**
- Os ydych wedi gwneud unrhyw ddiwygiadau, gwnewch yn siwr eich bod yn eu llofnodi a'u dyddio.
- Gwnewch yn siwr eich bod wedi llofnodi'r ffurflen yn **Rhan 10**.

Rhan 12 Ble i anfon y ffurflen gais

Ar ôl i chi lenwi'r ffurflen gais, ewch neu anfonwch y ffurflen i'r Ganolfan Byd Gwaith. Gallwch ddod o hyd i'r rhif ffôn a'r cyfeiriad yn adran rhifau busnes y llyfr ffôn. Edrychwch o dan **Jobcentre Plus.**

Rhan 13 Beth sy'n digwydd nesaf

Byddwn yn edrych ar eich cais yn ofalus. Mae'n rhaid i'r swyddog penderfyniadau edrych ar yr holl amgylchiadau cyn penderfynu os gall Benthyciad Trefnu ei ddyfarnu. Dim ond swm cyfyngedig o arian sydd ar gael gan y Gronfa Gymdeithasol.

Os byddwn yn penderfynu y **gallwn** dalu benthyciad i chi ac rydych yn cytuno termau i ad-dalu'r benthyciad, byddwn yn gwneud taliad i'r cyfrif a enwebwyd am swm y benthyciad. Byddwn yn rhoi gwybod i chi os **na allwn** dalu benthyciad i chi.

Rhan 14 Sut rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth

Mae'r wybodaeth rydym yn ei chasglu amdanoch a sut rydym yn ei defnyddio yn dibynnu'n bennaf ar y rheswm dros eich busnes gyda ni. Ond fe allwn ddefnyddio'r wybodaeth ar gyfer unrhyw ddibenion yr Adran, sy'n cynnwys

- budd-daliadau a lwfansau nawdd cymdeithasol
- cynnal plant
- cyflogaeth a hyfforddiant
- polisi pensiynau preifat, a
- cynllunio ar gyfer ymddeol.

Efallai y byddwn yn cael gwybodaeth gan eraill er mwyn gwirio'r wybodaeth rydych yn ei roi i ni ac i wella ein gwasanaethau. Efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth i rai sefydliadau eraill fel y mae'r gyfraith yn caniatáu, er enghraifft er mwyn amddiffyn yn erbyn troseddau.

I gael mwy o wybodaeth am y ffordd rydym yn defnyddio gwybodaeth, ymelwch â'n gwefan **www.dwp.gov.uk/welsh/privacy.asp** neu gysylltu ag unrhyw un o'n swyddfeydd.

Rhan 15 Ein safonau gwasanaeth

Yn y Ganolfan Byd Gwaith ein nod yw darparu safon uchel o wasanaeth i gwsmeriaid bob amser. Gellir dod o hyd i fanylion safon y gwasanaeth y gallwch ei ddisgwyl gennym ar ein gwefan yn **www.canolfanbydgwaith.gov.uk**

Gallwch gael mynediad i'n gwefan mewn llawer o lyfrgelloedd.

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith.